Darganfod

Bryniau Clwyd

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Exploring

Clwydian Range

Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd
Clwydian Range

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



Croesawu

Croeso i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Dyma gadwyn hynod o gopaon sy'n lliwgar gan borffor y grug ac ar eu pennau saif bryngeyrydd mwyaf trawiadol Ynysodd Prydain. Dyma fryniau gororau Gogledd Cymru- yn amlwg o bob cyfeiriad ac yn denu pobl i ddod i chwilio ac i ddarganfod.

Yn nwfn yn y wlad ryfeddol o amrywiol hon ymddengys clogwyni calchfaen trawiadol, glaswelltiroedd ir, cymoedd coediog hudolus a phorfeydd mwyn.

O ben y Moelydd, ymestynna'r golygfeydd o Eryri hyd Lannau Merswy gan ein hatgoffa, er ein bod yng nghanol cefn gwlad Cymru, bod y cysylltiadau â Lloegr ar draws y ffin yn gryf.

"Un o drysorau naturiol Cymru"

Iolo Williams –
Cyflwynydd Natur BBC a SC4

Moel Famau
Moel Dywyll
Moel Llys-y-Coed
Moel Arthur

Darganfod

Yn glytwaith o natur ac yn adleisio gan leisiau'r gorffennol, dyna Fryniau Clwyd. Ac yma yn aros i'w darganfod mae trysorau'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol.

Yn addurn ar y glaswelltiroedd calchfaen, tyf y blodau gwyllt a gwibia'r gloÿnnod byw. Yn y cymoedd coediog toreithiog - planhigion lu a chynefinoedd y dyfrgi a bronwen y dŵr. Yn celu ymhlith y grug, yr eithin a'r llus ar y mynydd - y rugiar ddu brin a swil.

Ac yn hollbresennol ar y dirwedd hon erys tystiolaeth o ymdrechion pobl dros filoedd o flynyddoedd. Yn atgof o'r gorffennol coll, ceir yma fryngeyrydd trawiadol, hen eglwysi canoloesol hardd a chreithiau rhyfeddol yr hen chwareli.



Profi

Gwaith hawdd iawn yw cyrraedd y golygfeydd mawreddog, rhyfeddu at y dirwedd, ac anadlu'r awyr iach yn ehangder agored Bryniau Clwyd. Dyma ardal wych i gerdded ynddi. Rhed Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ar hyd cefnen y Moelydd. O fynd am dro bach ceir golygfeydd rhyfeddol, ac mae'r troeon hirach yn dirwyn drwy olygfeydd amrywiol dros ben.

Lleoedd gwych ar gefn beic yw'r rhwydwaith o lonydd bach tawel, ac yng Nghoed Llandegla cyfagos ceir cyfleusterau i feicio oddi ar y ffyrdd. Ar y llwybrau ceffylau tawel gellir mynd am dro ar gefn ceffyl, neu daith hirach.

Rhai o'r cyfleusterau arbenigol a gynigir yw'r pysgota gwych, fel yn Llyn Gweryd hardd. Ac os am gyflymu'r galon, beth am baragleidio neu abseilio o dan reolaeth dda?





Mwynhau

Dewch i fwynhau'r rhan hon o Gymru. Ei chymunedau bywiog yw calon Bryniau Clwyd. Yn ei phentrefi a'i threfi diddorol ceir dewis helaeth o leoedd i aros, bwyta, yfed a siopa.

Mae'r traddodiadau a'r cysylltiadau â'r tir yn dal yn fyw yma, ac yn ystod y digwyddiadau lleol aml fe danlinellir y berthynas agos rhwng y gymuned a'r dirwedd.

Ym mis Mai, yn ystod Gŵyl Gerdded Prestatyn, bydd y mynydd yn berwi o fywyd. Mae Gŵyl y Goedwig yn Llanelwy yn deyrnged i goedwigoedd Bryniau Clwyd. Yng Ngŵyl Rhuthun a Sioe Dinbych a Fflint amlygir y diwylliant lleol. Mae treialon cŵn defaid Llanarmon-yn-iâl a Ras Mynydd Cilcain yng nghanol y Bryniau.

Yng Ngŵyl Bwyd yr Wyddgrug dethlir popeth da am y cynnyrch lleol. Ceir rhywbeth blasus yn y tafarnau, caffis, bwytai a lletyau'r ardal.

Coleddu

Mae Bryniau Clwyd yn un o dirweddau gorau Ynysoedd Prydain. Dynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yng Nghymru mae pum ardal felly. Ynghyd â'r tri Pharc Cenedlaethol, dyma 'drysor' cefn gwlad y genedl a chaiff ei ddiogelu er mwyn i bawb allu'i fwynhau.

Ond nid yw lle hardd fel hyn yn gofalu am ei hun. Yn ffodus, mae nifer o bobl sy'n treulio'i hoes i gadw'r dirwedd yn arbennig. Bu'r ffermwyr lleol, gwirfoddolwyr a staff yr Adran Cefn Gwlad wrthi'n trin y tir ers cenedlaethau. Mae'r rheolwyr tiroedd hyn yn gofalu am y golygfeydd hardd, y cynefinoedd, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth. Ymhlith llwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf, bu mwy o wella ar y mynyddoedd grug ac ar y bryngaerau.

Gallwch chi ein helpu gyda hyn. Gallwch barchu anghenion pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn chwarae yma pan fyddwch yn ymweld â Bryniau Clwyd. Ymunwch â'r nifer o bobl sy'n cael boddhad a hwyl drwy wirfoddoli. Cysylltwch â'r Ganolfan Cefn Gwlad i gael mwy o wybodaeth.

Canolfan Bryniau Clwyd

(ar agor ar ddyddiau'r wythnos a gwyliau ysgol)
Parc Gwledig Loggerheads
CH7 5LH
☎ 01352 810614

Clwydian Range Centre

(Open weekends and school holidays)
Loggerheads Country Park
CH7 5LH
☎ 01352 810614

Canolfannau Croeso:

Mold ☎ 01352 759331
Rhyl ☎ 01745 355068

Tourist Information Centres:

Wrexham ☎ 01978 292015
Llangollen ☎ 01978 860828

0871 200 22 33
www.travelinecymru.info
TravelineCymru
Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info

Darparwyd yr ariannu ar gyfer y daflen hon gan:
Funding for this leaflet provided by:

CADWYN Clwyd

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.clwydianrangeaonb.org.uk
www.visitclwydianrange.co.uk

Ymchwil ac ysgrifennu | Research and Writing – www.hi-clarity.co.uk
Dylunio | Design – www.splinter.co.uk
Argraffwyd ar bapur sy wedi'i ailgylchu | Printed on recycled paper